## COFNODION

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 29 Tachwedd 2002 |
| **Amser:** | 10.00am tan 12:30pm |
| **Lleoliad:** | Coleg Glannau Dyfrdwy, Cei Cona |

### Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Peter Rogers, Cadeirydd | Gogledd Cymru |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Alison Halford | Delyn |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| *Yn bresennol* | |
| Richard Brunstrom (eitem 3) | Y Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru |
| Y Cyng. Malcolm King (eitem 3) | Cadeirydd Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru |
| Janet Growcott (eitem 4) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Sandra Bloor (eitem 4) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| *Yr Ysgrifenyddiaeth* | |
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor, y swyddogion ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law oddi wrth David Ian Jones, Gareth Jones, Ieuan Wyn Jones, John Marek, Tom Middlehurst, Dafydd Elis-Thomas a Dafydd Wigley.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 1 Tachwedd 2002**

- NWR 03-02 (cof)

2.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd.

2.2 Dywedodd y Cadeirydd fod yr Aelodau wedi cyfarfod yn anffurfiol â chynrychiolwyr yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol a Virgin Trains ers y cyfarfod diwethaf i fynegi pryderon ynghylch y gwasanaethau trên yn ôl ac ymlaen i'r Gogledd.

**Eitem 3: Partneriaethau Gostwng Troseddu**

3.1 Rhoddodd Richard Brunstrom a'r Cynghorydd King gyflwyniad a oedd yn disgrifio sut roedd y partneriaethau'n gweithredu yn ardal Heddlu Gogledd Cymru. [Mae copiau caled o'r cyflwyniad ar gael ar gais].

3.2 Dyma brif bwyntiau'r drafodaeth gyda'r Aelodau:

- Ystyried y dadleuon o blaid datganoli cyfrifoldeb dros blismona o'r Swyddfa Gartref i'r Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â chymorth ariannol gan yr Heddlu a fydd yn sicrhau cyllid hir dymor ymghlwm wrth gynllun busnes. Nododd y Prif Gwnstabl y byddai'r pedwar Awdurdod Heddlu yng Nghymru yn cefnogi datganoli'r cyfrifoldeb dros blismona i Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

- Yr angen i'r Heddlu a'r Awdurdodau Iechyd weithio mewn partneriaeth wrth fynd i'r afael â chyffuriau, a rhoi triniaeth i bobl sy'n cymryd cyffuriau, ond gan weithredu yn erbyn gwerthwyr cyffuriau, a chefnogi'r broses o adolygu cyllid;

- Cefnogi'r fforymau rhanbarthol, a rhoi cymorth ariannol ar sail rhanbarthol lle y bo'n briodol, a rhoi cyfle posibl i ardaloedd eraill yng Nghymru ddysgu o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan bartneriaethau yn y Gogledd;

- Cefnogi cymorthfeydd lleol yr heddlu ond roedd y ffaith nad oedd rhai galwadau i'r Heddlu'n cael eu hateb yn destun pryder, gan nad y troseddau felly yn cael eu cofnodi, ac nad oedd camau'n cael eu cymryd bob amser i ddelio â mân droseddau.

3.3 Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau o'r gynulleidfa:

- Tynnodd Laura Roberts o Gyngor Gwirfoddol Sir y Fflint sylw at y rôl allweddol yr oedd y sector gwirfoddol yn ei chwarae mewn partneriaethau lleol, ac at yr angen i fonitro a phwyso a mesur sgil-effeithiau troseddu yn ogystal ag ystadegau moel;

- Rhoddodd un o Gyfarwyddwyr CAIS y Gogledd glod i drefniadau'r partneriaethau leol ac awgrymodd y dylid cysylltu strategaethau trosedd ac iechyd yn y drefn newydd ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru;

- Dywedodd y Cynghorydd McFarland o Gyngor Cei Cona fod rhai wardiau'n wynebu problemau gyda phob math o drosedd ac anhrefn;

- Awgrymodd y Cynghorydd McDonald, Cyngor Cei Cona y dylai'r awdurdodau lleol a'r partneriaethau gydweithio er mwyn trafod y problemau sy'n gysylltiedig â lletya ac adsefydlu troseddwyr;

- Dywedodd y Cynghorydd Martin Hayes o Gyngor Cymuned Gwern y Mynydd fod y cymorthfeydd y mae'r Heddlu'n eu cynnal yn dda, ond nad oedd unrhyw beth mor effeithiol â chael mwy o blismyn yn cerdded y strydoedd;

- Roedd y Cynghorydd George Johnson o Gyngor Bae Colwyn hefyd o blaid cael mwy o blismyn ar y strydoedd ac awgrymodd fod polisi dim goddefgarwch yn arwain at ostwng troseddu;

- Bu'r Cynghorydd Dorothy Bullock, Maer Bangor yn canu clodydd y swyddogion hyn a galwodd am i'r heddlu fabwysiadu polisi dim goddefgarwch;

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Mair Williams, Cyngor Tref Caernarfon at y ffordd roedd y cyfryngau'n creu cynnwrf wrth roi sylw i drosedd;

- Ym marn y Cynghorydd Eve Butler o Gyngor Dinas Bangor, dylai'r heddlu dargedu pawb a oedd yn gwerthu cyffuriau, yn hytrach na'r prif werthwyr yn unig.

3.4 Dywedodd y Prif Gwnstabl fod Heddlu Gogledd Cymru wrthi'n cyflwyno polisi "dim goddefgarwch" fel ffordd o ddelio â throsedd. Roedd yr Heddlu wedi ymrwymo i blismona cymunedol, ond ni fyddai modd iddynt gynyddu nifer y plismyn ar y strydoedd oni bai bod mwy o arian ar gael. Fodd bynnag, roeddent yn manteisio ar dechnoleg fodern er mwyn rhyddhau swyddogion yr heddlu i wneud gorchwylion eraill. Ac roedd yr Heddlu yn delio â phob gwerthwr cyffuriau.

**Eitem 4: Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrth–Gymdeithasol**

4.1 Rhoddodd Janet Growcott a Sandra Bloor o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gyflwyniad ar yr hyn sy'n cael ei wneud yn y rhanbarth i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol. [Mae copiau caled o'r cyflwyniad ar gael ar gais].

4.2 Bu'r Aelodau'n trafod:

- Yr angen i weithredu ar fyrder unwaith yr oedd pobl ifanc wedi'u hasesu a'u hangenion wedi'u nodi;
- Pa mor effeithiol y mae teledu cylch cyfyng o ran cael y rhieni i wynebu'r ffordd y mae eu plant yn ymddwyn, ond hefyd y peryglon posibl o ddefnyddio lluniau fel tystiolaeth lle nad oedd y digwyddiadau cyfan wedi'u cofnodi;
- Ym mha ffyrdd y gallai cymunedau cyfan gefnogi teuluoedd sy'n cael anawsterau, er enghraifft, helpu rhieni i ddatblygu sgiliau magu plant ac egluro'r effaith y mae ymddygiad y plant yn ei chael, a'r camau sydd ar gael i ddelio ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn y gymuned.

4.3 Cododd aelodau o'r gynulleidfa'r pwyntiau canlynol:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Meurig Hughes o Gyngor Llangefni at adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant a dynnodd sylw at amddifadedd ymysg plant yng Nghymru, a galwodd am sicrhau bod arian o'r Gymuned Ewropeaidd ar gael drwy Amcan 1 er mwyn helpu ardaloedd yn y Gogledd;
- Gofynnodd Cadeirydd Fforwm Cydraddoldeb Gogledd Cymru a oedd ystadegau ar droseddau'n ymwneud â hiliaeth neu gasineb yn cael eu casglu;

- Cafodd y broses ei hegluro gan John Roberts, Clerc Cyngor Tref Bae Colwyn ac ynad heddwch. Ef oedd wedi rhoi'r gorchymyn gwrth-gymdeithasol cyntaf yn y Gogledd. Roedd ef o'r farn ei bod yn broses ddrud, a bod angen ei symleiddio;

- Rhannodd Margaret Cox ei phrofiad personol o drosedd;

- Soniodd un o aelodau'r gynulleidfa am yr angen i ddeall diwylliant ieuenctid wrth ddelio â throseddwyr ifanc, a'r posibilrwydd y gallai pobl ifanc ystyried bod ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn ennyn edmygedd, sy'n tanseilio'r broses.

- Dywedodd aelod arall o'r gynulleidfa nad oedd nifer fawr o'r troseddau a gyflawnir gan bobl ifanc yn cael eu cofnodi, er bod mwy o oedolion yn troseddu.

- Dywedodd Maer yr Wyddgrug fod y gost i'r trethdalwr o ddelio â throseddwr ifanc yn fwy na'r gost o roi addysg breifat i blentyn;

- Cyfeiriodd Steven Wood o'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a Rhwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru at yr angen i ddatrys y problemau sy'n gysylltiedig â meysydd eraill yn y system cyfiawnder troseddol, megis y trafferthion sydd ynghlwm wrth gosbi ymddygiad hiliol;

- Roedd Andrew Goodwin, aelod o Bwyllgor Teithwyr Trên Cymru, o blaid y system a sefydlwyd yn ddiweddar, sef gofyn i'r cyhoedd roi gwybod am ddigwyddiadau gwrth-gymdeithasol nad ydynt yn argyfyngau drwy ddeialu '888';

- Roedd y Cynghorydd Chris Hughes o Gyngor Sir Conwy o blaid dim goddefgarwch wrth ddelio ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol, ond dywedodd nad oedd yr Heddlu bob amser yn cyrraedd ar ôl cael eu galw i ddigwyddiadau o'r fath;

- Ym marn y Cynghorydd Bob Barton o Gyngor Llanarmon-yn-Ial, roedd yn hanfodol rhoi cymorth ariannol i gymunedau lleol er mwyn cynnal cyfleusterau lleol megis clybiau ieuenctid, oherwydd na fyddai'r unlle gan y bobl ifanc fynd pe byddent yn cau;

- Soniodd y Cynghorydd Eve Butler o Gyngor Dinas Bangor am yr angen i ddiogelu tystion a chadw'u henwau'n gyfrinachol, gan eu bod yn aml yn anfodlon rhoi tystiolaeth rhag ofn y byddai rhywun yn aflonyddu arnynt;

- Yn nhyb Ken Williams o Gyngor Tref yr Wyddgrug, roedd gorchmynion gwrth-gymdeithasol yn fiwrocrataidd, a chyfeiriodd at yr angen i helpu deiliaid tai preifat, yn ogystal â'r rhai a oedd yn byw yn eiddo'r cyngor.

4.4 Dywedodd Janet Growcott fod troseddau hiliol neu droseddau'n ymwneud â chasineb bellach yn cael eu cynnwys wrth gofnodi digwyddiadau a bod swyddog amrywiaeth newydd wedi'i benodi i ddelio â'r problemau hyn. O ran gorchmynion gwrth-gymdeithasol, roeddent wedi cymryd cryn amser i'w gorfodi, ond dim ond pedwar mis yr oedd gorchymyn a roddwyd yn ddiweddar wedi'i gymryd o'i gyflwyno i ddyddiad ei gyhoeddi.

**Eitem 5: Dyddiad y cyfarfod nesaf**

5.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 31 Ionawr 2003 yn Theatr John Ambrose, Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

**Tachwedd 2002**